# Polisi Cynhwysiad ac Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn ganolog i gynlluniau, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau rydym yn addysgu am hawliau plant a hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas **Polisi Cynhwysiad ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.**

**1.Cynnwys:**

2. Cefndir ein hysgol

3. Ein datganiad cynhwysiad ac amcanion penodol

4. Polisi derbyn yr ysgol

5. Egwyddorion sylfaenol

6. Meini prawf llwyddiant

7. Diffiniad termau, ‘Anghenion Dysgu Ychwanegol’,ac ‘Anghenion Addysgol Arbennig.’

8. Rolau a chyfrifoldebau o fewn yr ysgol

9. Arbenigedd o fewn maes anghenion dysgu ychwanegol a threfniadau ar gyfer hyfforddiant mewn swydd

10. Dyrannu a darparu’r adnoddau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

11. Rôl y corff llywodraethol

12. Adnabod anghenion dysgu ychwanegol.

13. Yr Ymateb Graddoledig

14. Anghenion meddygol

15. Gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni

16. Trefn cwynion

17. Gweithio gydag asiantaethau eraill sydd yn darparu cefnogaeth

18. Trefniadau trosglwyddo

19. Atodiad 1- Cynllun Datblygu Anghenion Dysgu Ychwanegol 2009-10

20. Atodiad 2 - Map Darpariaeth ar gyfer 2009-2010

21. Atodiad 3 - Manylion cyswllt ar gyfer asiantaethau allanol

**2.Cefndir ein hysgol**

Ysgol gynradd sirol, benodedig ddwyieithog yw ein hysgol ni. Fe'i lleolir ym Mhontybrenin sydd yn bentref gerllaw tref Gorseinon yn Sir a Dinas Abertawe. Agorwyd yr ysgol ym 1952 ac rydym yn gwasanaethu ardal eang sydd yn ymestyn o Benrhyn Gŵyr hyd gyrion Gorllewin Dinas Abertawe. Rydym yn anelu at gynnig addysg o'r safon orau sydd yn ceisio ateb anghenion yr unigolyn mewn awyrgylch cefnogol, hwylus a Chymreig.

**3. Ein Datganiad Cynhwysiant ac Amcanion penodol:**

*Yn ôl Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru,Rhif 47/2006:*

*'Proses yw cynhwysiant, i ddisgyblion gael manteisio ar gyfleoedd cyffredin mewn ffyrdd sy'n berthnasol i'w hanghenion a lle maent yn wir perthyn i'r gymuned ysgol......'*

*ac yn ' ... golygu cwricwlwm cynhwysol a mesurau i wella ymwybyddiaeth athrawon a staff eraill o ddysgu cynhwysol a materion cyfle cyfartal.'*

Anelwn ym Mhontybrenin felly, i roi i bob dysgwr y cyfle i ddatblygu hyd eithaf ei allu yn academaidd, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn gorfforol. Rydym yn annog ac yn galluogi pob dysgwr i gyfrannu'n llawn ac yn ôl ei allu a doniau tuag at ei addysg, ei gymuned ysgol a'i gymuned ehangach**.** Wrth gynnwys a gwerthfawrogi pob dysgwr rydym yn sicrhau cyfle cyfartal i bob un i gyflawni ei botensial unigol. Rydym felly yn cynnig iddynt fynediad cyfartal i'r cyfan a gynigir gan yr ysgol gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. Rydym yn cydnabod a cheisio goresgyn yn raddol y ffactorau sy'n gallu rhwystro unigolyn rhag cymryd y rhan lawnaf bosib ac osgoi unrhyw wahaniaethu ar sail rhyw, hil neu anabledd.

**4.Polisi derbyn yr ysgol:**

Rydym fel ysgol yn unol â Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001, yn derbyn plant sydd ag anghenion ychwanegol neu addysgol ychwanegol sydd wedi eu canfod yn barod yn ogystal â chanfod disgyblion nad oedd wedi eu dynodi.

Yn unol â Chod Ymarfer Hawliau Anabledd ar gyfer Ysgolion 2002 , yr ydym yn cynllunio'n strategol a symud ymlaen i wneud adeiladau, tir yr ysgol a'r cwricwlwm yn hygyrch i ddisgyblion waeth beth bo'u hanableddau neu beidio.

**5. Egwyddorion sylfaenol**

Yn dilyn ein hymrwymiad i gynhwysiant, dylai unrhyw anghenion arbennig neu anghenion ychwanegol gael eu diwallu wrth i ni gynnig addysg eang, gytbwys a pherthnasol wedi'i seilio ar Fframwaith y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer dysgu plant 3-11 oed.

Fel rhan o'r ymdrech hon rydym yn defnyddio dulliau gweithredol, amlsynhwyraidd o gyflwyno gwybodaeth newydd gan ystyried gwahanol ddulliau dysgu yn ogystal ag anghenion cymdeithasol ag emosiynol ein dysgwyr. Rydym hefyd yn amrywio'r dysgu drwy ddefnyddio gwahanol drefn gwersi, cyflymder y dysgu, maint grwpiau, deunyddiau a chefnogaeth. Credwn mewn cynnwys y dysgwr ym mhroses dysgu ac asesu, gan ystyried dulliau dysgu yr unigolyn. Felly, cynlluniwyd y cynlluniau addysg unigol gyda'r plentyn mewn golwg a thargedau sydd wedi eu trafod gyda'r plentyn .

## 6. Meini prawf llwyddiant

Rydym yn monitro ein llwyddiant i weithredu'r polisi hwn trwy ymweld â'n hadroddiad Hunan Werthusiad, ac hefyd ystyried ein Cynllun Datblygu Cynhwysiant ac Anghenion Addysgol Arbennig. Golyga hynny ystyried ffactorau fel:

a. llwyddiant ein dysgwyr wrth gyrraedd targedau penodol
b. effeithiolrwydd y dysgu, addysgu ac asesu
c. i ba raddau mae profiadau dysgu ein dysgwyr yn cwrdd â'u hanghenion
d. ydy ein dysgwyr yn teimlo eu bod yn derbyn gofal, arweiniad a chefnogaeth
e. pa mor effeithiol ydy ein partneriaeth gyda rhieni
f. pa mor llwyddiannus yr ydym i ganfod yn gynnar unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion ychwanegol
g. ym mha ffyrdd allwn ni wella effeithlonrwydd ein haddysgu

Er mwyn monitro llwyddiant mae adroddiadau, asesiadau a sylwadau yn cael eu cadw yn rheolaidd gan athrawon a chynorthwywyr dysgu . Defnyddir y wybodaeth hon i dracio cynnydd unigolion yn y rhaglen 'Incerts'.

## 7. Diffiniad,'Anghenion Dysgu Ychwanegol' ac 'Anghenion Addysgol Arbennig.'

Yn ôl Cylchlythyr Cynulliad cenedlaethol Cymru, Rhif: 47/2006, mae'r term,**'Anghenion Dysgu Ychwanegol**' yn

-'cwmpasu pob plentyn..sydd ag anghenion dysgu mwy na'r mwyafrif o'u cyfoedion , nid dim ond y rhai y nodir ganddynt anghenion addysgol arbennig fel y diffinir yn Neddf Addysg a Chod Ymarfer AAA Cymru. '

-'cynnwys y dysgwyr hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt , naill ai oherwydd eu hamgylchiadau ..neu anhwylder..neu gyflwr tymor hir.'

ac yn cynnwys disgyblion o’r grwpiau canlynol:

- teuluoedd sydd mewn amgylchiadau anodd

- disgyblion sydd ag anabledd

- disgyblion mwy galluog a thalentog

- disgyblion sydd yn derbyn gofal yr Awdurdod Lleol

- disgyblion sydd ag anghenion meddygol

sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

**Anghenion Addysgol Arbennig**

Diffiniwyd y term hwn yn Neddf Addysg 1996 a Chod Ymarfer AAA Cymru (2002), fel:

‘..anhawster dysgu sy’n golygu eu bod yn ofynnol gwneud darpariaeth addysgol arbennig.’

Gall yr anawsterau dysgu yma olygu:

a. ‘ dysgu sydd yn llawer mwy anodd nag y mae i’r mwyafrif o’u cyfoedion,’ neu,

b. ‘mae gan y dysgwyr anabledd dysgu sy’n eu rhwystro neu’n eu llesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysgol tebyg i’r rheini a ddarperir yn gyffredinol i blant ysgol o’r un oedran, ac o fewn ardal yr awdurdod addysg leol,’

neu, ‘os byddant o dan oed ysgol gorfodol, a bod a. neu b. uchod yn briodol iddynt, neu y byddai’n briodol pe na bai darpariaeth arbennig ar eu cyfer.

Mae darpariaeth addysgol arbennig yn golygu :

a. I blant dwy oed neu drosodd, darpariaeth addysgol sy’n ychwanegol at y ddarpariaeth addysgol a wneir fel rheol ar gyfer plant o’u hoedran mewn ysgolion a gynhelir gan yr AALl yn yr ardal ar wahân i ysgolion arbennig, neu’n wahanol mewn rhyw ffordd arall i’r ddarpariaeth honno.
b. I blant o dan ddwy oed, darpariaeth ysgol o unrhyw fath.

**8. Rolau a chyfrifoldebau o fewn yr ysgol:**

Mae ‘r cyfrifoldeb am arsylwi, adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gyfrifoldeb i’r staff yn ei chyfanrwydd. Er bod gan y corff llywodraethol, y pennaeth, y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol rôl benodol, mae gan bob aelod o’r staff rôl bwysig i gyfrannu at weithredu ‘r polisi hwn.

Rôl y Pennaeth a’r Corff Llywodraethwyr yw dyrannu'r ddarpariaeth sydd yn dod i’r ysgol ar gyfer plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac i weithredu yn ôl anghenion y Cod Ymarfer, 2002.

**Cyfrifoldebau'r Cydlynydd / athrawes gynnal:**

- cyfathrebu’n effeithiol gyda gweddill y staff dysgu a chefnogi ynglŷn â materion sydd yn effeithio plant gydag anghenion ychwanegol

- rhoi awgrymiadau ynglŷn ag adnoddau a strategaethau i gwrdd ag anghenion

- cadw’r gofrestr anghenion ychwanegol yn gyfredol

- arwain y gweithredu o Arolwg Darllen blynyddol y sir

- trefnu'r ddarpariaeth a darparu dros y dysgu ar gyfer unigolion neu grwpiau o fewn neu du allan i’r dosbarthiadau

- cadw cofnod o’r ddarpariaeth ar gyfer map darpariaeth

- cysylltu gyda rhieni, y seicolegydd addysg ac asiantaethau’r awdurdod ac asiantaethau allanol sydd yn cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol

- rhoi cymorth a chyngor i’r athrawon wrth iddynt adolygu ac ysgrifennu cynlluniau unigol

- sicrhau gweithrediad yr Ymateb Graddol edig yn ôl y Cod ymarfer 2002

- gwneud asesiadau, arsylwadau ac ymchwil priodol

- mynychu cyrsiau tymhorol ac achlysurol ar gyfer y Cydlynwyr ac athrawon cynnal

- gweithredu’r polisi hwn o ddydd i ddydd ac i fonitro’i lwyddiant gan adrodd yn ôl i’r pennaeth

Y Cydlynydd am y flwyddyn 2019 - 2020 yw Miss Menna M George a’r llywodraethwr gyda chyfrifoldeb am Anghenion Dysgu Ychwanegol yw Mr Jonathan Williams. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn digwydd rhwng y ddwy er mwyn rhannu gwybodaeth a monitro’r anghenion a’r ddarpariaeth.

**Staff Cynorthwyol**

Yn ôl Deddf Addysg, 1997:

‘Mae cyfraniad cynorthwywyr dysgu yn ganolog i lwyddiant ymarferion dysgu anghenion arbennig,’

Rôl cynorthwyydd dysgu yw cefnogi plentyn yn ôl y ddarpariaeth yn ei Gynllun Addysgol Unigol, gan ddilyn arweinyddiaeth yr athrawes dosbarth a’r cydlynydd. Gall hwn cymryd ffurf paratoi deunyddiau, gweithio gyda grŵp o blant neu unigolion, nodi sylwadau fel bo angen ar daflenni sylwadau i gydfynd â’r cynlluniau addysgol unigol neu yn ôl trefn neilltuol y dosbarth. Mae rôl allweddol ganddynt i chwarae mewn rheoli a monitro ymddygiad plant ac mewn cynnal cwricwlwm gwahaniaethol sydd wedi gwahaniaethu ar gyfer anghenion a moddau dysgu amrywiol ein disgyblion. Rydym yn hysbysebu ein cynorthwywyr dosbarth ynglŷn â’r amcanion dysgu a thargedau penodol plentyn ac yn gwerthfawrogi eu sylwadau ar effeithiolrwydd ymyriadau.

Ym Mhontybrenin, mae gennym gynorthwywraig, Mrs Emma Evans, sydd yn cefnogi plant yn unigol neu mewn grwpiau bychain tu allan i’w dosbarthiadau. Wedi ymgynghori gyda’r cydlynydd ADY a’r athrawes dosbarth mae hi’n eu cefnogi yn unol â’u hanghenion ar dargedau a gytunir yn y broses o greu’r Cynllun Addysg Unigol.

Mae hefyd cynorthwywyr dysgu yn gweithio o fewn gwahanol ddosbarthiadau yn cynorthwyo’r addysgu a dysgu o dan arweiniad a chyngor yr athrawes dosbarth a’r cydlynydd ADY.

Ym Mhontybrenin felly, mae ein cynorthwywyr dosbarth yn:

- mynychu adolygiadau blynyddol datganiadau ac yn cyfrannu at adroddiadau
- cymryd rhan mewn trefnu’r dosbarth a’r dysgu
- datblygu adnoddau
- cyd-weithio gyda’r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r athrawon dosbarth
- gweithredu a monitro gweithrediad ein datganiad cynhwysiant
- mynychu cyrsiau hyfforddi a hyfforddiant mewn swydd perthnasol
- cyd-weithio gyda athrawon ag arbenigedd ac asiantaethau allanol

**9. Arbenigedd o fewn maes dysgu arbennig a threfniadau ar gyfer hyfforddiant mewn swydd:**

Mae mwyafrif y staff wedi derbyn profiad ymarferol o weithio gydag  a darparu ar gyfer disgyblion sydd yn ymddangos ar y continwwm o anghenion addysgiadol ychwanegol . Rydym fel staff gyfan yn awyddus i fanteisio ar gyfleoedd i hyfforddi'n bellach trwy fynychu cyrsiau  a derbyn hyfforddiant mewn swydd.

Mae ein Cydlynydd/ Athrawes cynnal  yn mynychu cyrsiau tymhorol y Sir ac yn rhannu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth am ymarferion da gyda;r staff gyfan – yn athrawon a chynorthwywyr. Mae hefyd wedi derbyn hyfforddiant estynedig ar ddysgu plant gydag anawsterau dysgu penodol ac ar ddysgu plant gydag anawsterau iaith a lleferydd. Mae un athrawes  yn  aelod  British Dyslexia Association ac mae dwy aelod o'r staff cefnogi yn y babanod a thair yn yr Iau wedi mynychu cwrs  ELKLAN ar gyfer cefnogi plant gydag anawsterau iaith a lleferydd. Mae sawl cynorthwywraig dysgu wedi hyfforddi yn ddefnydd y rhaglen Speechlink a Languagelink ar gyfer plant ag anawsterau iaith a lleferydd ac yn defnyddio'r rhaglen i gynnal plant. Mae un cynorthwywraig dysgu wedi datblygu arbenigedd yn anawsterau DCD a Dyspraxia ac yn cynnal plant o fewn grwpiau bach . Rydym fel staff cyfan wedi elwa o hyfforddiant ar Anawsterau  Emosiynol ac Ymddygiadol.  Mae dwy aelod o'r staff dysgu, Gwenda West a Menna George, wedi mynychu cwrs tridiau 'SCERTS' ar gyfer strategaethau i gynorthwyo plant ar y sbectrwm awtistiaeth. Mae'r ddwy ohonynt bellach yn aelodau o'r gweithgor sirol arbenigol yn y maes ac wedi bod yn mynd i ysgolion eraill o fewn y sir i roi arweiniad i staff yno yn y maes.

Mae nifer o'r athrawon a chynorthwywyr wedi derbyn hyfforddiant MAKATON ar gyfer plant ag anawsterau clyw a chyfathrebu a'r nod yw cynyddu niferoedd y staff sydd wedi derbyn yr hyfforddiant yma yn gyson er mwyn hybu sgiliau iaith a chyfathrebu gymaint â phosib o'n disgyblion.

Fel rhan o'r cynllun datblygu ar gyfer Anghenion Ychwanegol, rydym yn parhau i hyfforddi ein staff cynorthwyol yn bellach trwy fanteisio ar gyrsiau sirol, a thrwy gynnal hyfforddiant mewn swydd.

10. **Darparu a dyrannu'r adnoddau ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol** :

Mae darparu ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn digwydd trwy wneud y defnydd llawnaf o'r arian sy'n cyrraedd yr ysgol. Mae'r arian yma yn cyrraedd yr ysgol trwy ddwy ffynhonnell:

i) Arian a bennir i ni yn ôl fformiwla ariannu'r sir (sydd wedyn yn cael ei flaenoriaethu yn unol ag anghenion dosbarthiadau a disgyblion unigol trwy drafodaeth rhwng aelodau'r Tîm Rheoli  a'r defnydd o'r Arf Monitro)
ii) Arian a glustnodir tuag at blant sydd â darpariaeth benodol fel rhan o'u Datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Cyfrifoldeb y pennaeth a'r llywodraethwyr ydyw penderfynu 'r union ffordd i ddefnyddio'r cyllid sydd yn gallu cael ei wario i:

a. gyflogi cynorthwywyr dosbarth/a neu athrawes gynnal i weithio gyda 'r plentyn yn unigol, neu mewn grŵp nail ai o fewn neu du allan i'r dosbarth
b. sicrhau adnoddau cymwys i addysgu neu asesu plant sydd ag anghenion addysgol ychwanegol
c. hyfforddi athrawon /cynorthwywyr dosbarth mewn meysydd priodol

Ym Mhontybrenin rydym yn defnyddio, 'Map darpariaeth,' er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ystod o ddarpariaeth ar gyfer plant gydag anghenion ychwanegol ac i gyfateb adnoddau i anghenion yn y modd mwyaf effeithiol .

## 11. Rôl y Corff Llywodraethol

Mae'n ddyletswydd ar y corff llywodraethol, trwy'r fframwaith rheoli perfformiad, i osod targedau penodol ar gyfer cyflawniad addysgol disgyblion yr ysgol (gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol). Wrth astudio cyraeddiadau disgyblion yn flynyddol mae'r corff llywodraethol yn arfarnu'r canlyniadau ac yn mesur llwyddiant. Byddant wedyn yn cyflwyno adroddiad ar effeithlonrwydd y Polisi hwn, fel rhan o'i Adroddiad Blynyddol, o dan y penawdau canlynol:

- y system adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol

- y system asesu ar gyfer plant gydag anghenion dysgu ychwanegol

- y ddarpariaeth ar eu cyfer

- yr adolygu a chofnodi ar eu cyfer

- y defnydd o asiantaethau allanol

- y dyraniad o adnoddau ymysg plant gydag anghenion dysgu ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol

## 12. Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ni ellir gor-bwysleisio pwysigrwydd canfod ac asesu anghenion pob plentyn a darparu ar eu cyfer cyn gynted ag y bo modd. Cynharaf oll y gweithredir, mwyaf tebygol y mae'r plentyn i allu ymateb, a hawsaf oll y gellir sicrhau llwyddiant.

Ystyriwn asesu fel proses barhaus ac mae gan y plentyn ei hunan yn ogystal â'i rieni ran hanfodol yn y broses hon. Ymgynghorwn â nhw felly yn ystod pob cam er mwyn ennill y cydweithrediad sydd yn hanfodol i lwyddiant unrhyw ymyrraeth.

Man cychwyn y broses o adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn yr ysgol yw llawr y dosbarth. Cyfrifoldeb pob athro dosbarth a chynorthwyydd dosbarth o dan ei arweiniad yw arsylwi ar ac asesu anghenion unigol pob dysgwr.

Rydym yn mesur lefel cyrhaeddiad a chynnydd pob plentyn gan ddefnyddio:

a. Asesiad cychwynnol a ddarperir gan yr AALl, sef Proffil y Cyfnod Sylfaen, sydd yn cael ei ddefnyddio yn ystod tymor cyntaf y dosbarth Meithrin.
b. Profion darllen a mathemateg safonol, sef NFER a Phrawf Darllen Cymru Gyfan, sydd yn cael eu gwneud yn ystod tymor yr Hydref a'r Asesiadau Cymraeg; Saesneg a Mathemateg statudol (pob mis Mai)
c. Arsylwadau a monitro anffurfiol ar draws y cwricwlwm, sydd yn digwydd pob dydd o fewn y dosbarth

Os yw canlyniadau asesiadau neu'r arsylwadau yma yn awgrymu fod anawsterau gan blentyn:

i. Mae'r athrawes dosbarth neu athrawes gynnal yn gwneud asesiadau ychwanegol yn ôl y maes pryder - asesiadau WELLCOMM (asesu sgiliau iaith a chyfathrebu plant o 3 – 5); 'Speechlink' a/neu 'Languagelink' (asesu sgiliau lleferydd ac iaith plant 5 – 7 oed); asesiad Cymdeithas Dyslecsia Cymru; asesiad cydsymudiad corfforol.
ii. Os oes pryder am sgiliau darllen a llythrennedd mae athrawon blwyddyn 1-6 yn rhoi enw'r plentyn ymlaen ar gyfer Arolwg Darllen blynyddol y sir sydd yn cael ei gynnal ym misoedd Hydref / Tachwedd yn flynyddol . Yn ôl canlyniadau'r Arolwg hwn bydd cais yn cael ei wneud ar gyfer arian i roi cefnogaeth ychwanegol i'r plentyn. Pan mae plentyn wedi cael ei roi ymlaen yn yr arolwg darllen hysbyswn y rhieni am y ffaith yn ystod cyfarfodydd rhieni sydd yn cael eu cynnal ym mis Hydref/Tachwedd.

Ynghyd ag anawsterau dysgu rydym yn monitro datblygiad emosiynol, personol a chymdeithasol, trwy arsylwi yn anffurfiol ac o fewn y cwricwlwm.

Mae gennym hefyd Swyddog Lles (Miss Nerys Higgins), sydd yn cefnogi plant a'u rhieni pan mae anghenion cymdeithasol a/neu emosiynol ychwanegol yn amlygu eu hunain mewn disgybl.

Cydnabyddwn amhosibilrwydd categoreiddio a labelu'n bendant ein plant sydd ag anghenion arbennig oherwydd mae pob un ohonynt yn unigolyn unigryw. Gwelwn hefyd yn ein plant sbectrwm llydan o anghenion sydd yn cyd-fodoli ac yn gysylltiedig. Er hynny mae'r Cod yn adnabod pedwar prif ardal o angen, sef:

a. Cyfathrebu a rhyngweithio

b. Cydnabyddiaeth a Dysgu

c. Ymddygiad, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol

d.Synhwyrol neu gorfforol

Mae arweiniad parod am feysydd cynorthwyo plant ag ADYar gael gan y cydlynydd ADY yn bersonol ac hefyd ar ffurf dogfenwaith ar y 'Share Point', sef system rhwydwaith ddigidol yr ysgol.

Cynigir arweiniad ar feysydd penodol o gefnogaeth mewn cyfarfodydd staff ac hefyd cyfnodau HMS i'r staff gyfan ar adegau.

## 13. Yr Ymateb Graddoledig

Yn unol â Chod Ymarfer AAA 2002 yr ydym fel ysgol yn gweithredu, 'Ymateb Graddoledig,' i anghenion amrywiol ein plant. Mae yna bedwar cam i'r broses hon, sef:

1. Cofnod o Bryder sydd yn gyfnod o adnabyddiaeth **answyddogol** pan nad yw enw'r plentyn yn ymddangos ar gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegolyr ysgol ond mae angen cadw golwg ofalus ar ddatblygiad y plentyn.
2. Gweithredu Gan yr Ysgol (GY)
3. Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy (GY+)
4. Asesiad Statudol a all arwain at Ddatganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol (D)

### Cofnod o Bryder (CoB):

O ganlyniad nodi fod gan blentyn anhawster mewn unrhyw un o'r meysydd a gofnodwyd, mae'r athro/athrawes dosbarth yn ymgynghori â'r Cydlynydd ADY er mwyn trafod ffordd i weithredu a diwallu'r anghenion. Ymgynghorwn gyda rhieni a'r plentyn ei hunan er mwyn sicrhau eu mewnbwn. Cofnodir yr hyn a drafodir a dyddiad i adolygu cynnydd y plentyn ar ffurflen 'Cofnod o Bryder.' Yn dilyn yr adolygiad neu ynghynt os bydd angen, mae'r plentyn naill ai yn aros ar Gofnod o Bryder, symud ymlaen i Weithredu'r Ysgol neu sefyll allan o'r sefyllfa yn llwyr os yw'r anawsterau wedi eu diwallu.

### Gweithredu gan yr Ysgol (GY):

Pan mae’r Cofnod o Bryder yn cael ei adolygu neu’r mae’r athrawes dosbarth/ cydlynydd yn canfod nad yw plentyn wedi gwneud y cynnydd a ddisgwyliwyd yn dilyn gwahaniaethu arferol y dosbarth rydym yn paratoi i wneud ymyriad. Bydd hyn ‘yn ychwanegol i, neu'n wahanol i gwricwlwm a strategaethau gwahaniaethol arferol y dosbarth’. Trafodwn hwn gyda’r rhieni/gofalwyr a’r plentyn er mwyn i’r athro/athrawes dosbarth, mewn ymgynghoriad a’r cydlynydd, y rhieni/gofalwyr a’r plentyn fod yn gytûn am y ffordd gorau i weithredu . Fel canlyniad i’r trafodaethau hyn mae’r Cynllun Addysgol Unigol ar gyfer y plentyn yn cael ei greu ac yn cynnwys:

- argraff y plentyn a’i athro/athrawes ynglŷn â’i gryfderau a’i lwyddiannau

- syniadau'r plentyn a’i athro/athrawes ynglŷn â pha ardaloedd a sgiliau sydd angen targedu

- syniadau'r plentyn, y rhieni a’r athro/athrawes ynglŷn â ffordd i weithredu’r cynllun

- targedau tymor byr penodol

- y ddarpariaeth sydd ar gael

- pwy fydd yn helpu’r plentyn i gyrraedd ei dargedau a phryd

- meini prawf llwyddiant

- dyddiad yr adolygiad a manylion yr adolygiad

Anelwn at wneud sylwadau yn gyson yn ystod y tymor a chynnwys y plentyn yn y broses er mwyn iddo/i brofi llwyddiant. Mae taflen sylwadau achlysurol yn cael ei chadw gyda ChAU pob disgybl er mwyn i bob aelod o staff fedru cofnodi datblygiadau yn achlysurol wrth iddyn nhw ddigwydd ac er mwyn bwydo mewn i gynllunio ar gyfer camau nesaf addysg y disgybl ag ADY. Pan mae’r cynllun yn cael ei adolygu, mae’r athrawes dosbarth a’r athrawes cynnal (pan yn berthnasol) yn cymharu cofnodion sydd wedi eu dyddio ar y cynllun unigol.

Mae adolygiadau ffurfiol y cynlluniau yn cyd-ddigwydd gyda chyfarfodydd rhieni ym mis Hydref a mis Mai er mwyn i rieni gynnig mewnbwn a thrafod y camau nesaf.

Gall gefnogaeth y cynllun unigol cymryd gwahanol ffurf a chael ei roi gan athro/athrawes; cynorthwyrwaig dysgu a rhieni. Gall blentyn dderbyn cymorth unigol; cefnogaeth o fewn grŵp bach; cymorth penodol gan rieni adref; cymorth o fewn y dosbarth ac weithiau dderbyn adnoddau arbennig.

Mae cynnydd y plentyn wedyn yn cael ei fonitro yn y CAU; trwy arsylwadau achlysurol; mewn dyddiadauron ysgol/cartrtef, dyddiaduron dosbarth ac asesiadau. Mae targedau yn cael eu hadolygu o leiaf ddwy waith y flwyddyn ac ar unrhyw adeg priodol arall.

**Gweithredu gan yr ysgol a mwy (GY+)**

Mae cynllun addysgol unigol y plentyn sydd ar GY yn cael ei adolygu ar ddyddiad sydd wedi nodi ar y cynllun unigol neu yn gynt pan mae angen. Yn dilyn cytundeb rhwng y rhieni, yr athro/athrawes dosbarth y plentyn a'r cydlynydd ADY fod cynnydd y plentyn ddim yn ddigonol, a bod angen galw ar asiantaethau cynghorol o du allan i'r ysgol, symudwn y plentyn ymlaen gam i 'Gweithredu Gan yr Ysgol a Mwy' (GY+). Gyda chytundeb rhieni gallwn nawr gyfeirio'r plentyn at y Seicolegydd Addysg; Athrawon Ymgynghorol o amryw feysydd;Therapydd Iaith a Lleferydd neu Asiantaethau Iechyd eraill.

Yn sgil ymyrraeth gan yr asiantaethau allanol perthnasol mae angen adolygu'r cynllun unigol a'r targedau yn ôl y cyngor derbyniwyd.

**Asesiad Statudol o Anghenion Addysg Arbennig:**

Mewn nifer fach o achosion, pan nad yw'r plentyn wedi gwneud cynnydd yn dilyn cyfnod ar GY+ byddwn yn cyfeirio at yr Awdurdod Addysg Lleol am asesiad statudol. Fel rhan o'r broses ffurfiol hon mae'r Awdurdod Addysg Lleol yn gweithio ar y cyd â'r rhieni, yr ysgol, ac fel sy'n briodol, gydag asiantaethau eraill i ystyried os oes angen asesiad statudol ar y plentyn. Os oes angen, mae'n cynnal yr asesiad mewn cydweithrediad agos â'r rhieni, yr ysgol a'r asiantaethau priodol.

Gall yr Awdurdod benderfynu bod maint anhawster dysgu'r plentyn a natur y ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i ddiwallu ei anghenion addysgol gymaint fel bo angen gofyn i'r Awdurdod bennu darpariaeth addysgol ychwanegol y plentyn trwy 'Ddatganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol.' (Datganiad)

Gall y wybodaeth a gesglir yn ystod asesiad awgrymu ffyrdd i'r ysgol ddiwallu anghenion y plentyn heb fod angen i'r Awdurdod Lleol bennu ddarpariaeth addysgol trwy Ddatganiad. Efallai y byddai'r ysgol yn gallu darparu darn neilltuol o gyfarpar a fyddai yn ei alluogi, dan gyfarwyddyd priodol arbenigwyr, i ddiwallu anghenion y plentyn. Neu efallai y byddai modd galluogi'r plentyn i wneud cynnydd trwy ddefnyddio strategaethau amgen, yn unol â chyngor gwasanaethau cefnogi'r Awdurdod Addysg Lleol.

Mae rhaid adolygu pob Datganiad o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r adolygiad blynyddol y ddatganiadl yn sicrhau bod y rhieni, y disgybl, yr Awdurdod Lleol, yr ysgol a phob gweithiwr proffesiynol yn cael eu gwahodd i ystyried y cynnydd a wnaed ac i gyflwyno adroddiad. Defnyddir y wybodaeth a gesglir er mwyn adolygu'r darpariaeth a'r targedau hir dymor a gynhwysir yn y Datganiad.

**14. Anghenion meddygol**

Yn ôl Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru , Rhif 47/2006:

‘O bryd yw gilydd bydd gan y rhan fwyaf o ddisgyblion gyflwr meddygol a allai effeithio are eu gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol... Gallai disgyblion eraill fod a chyflwr meddygol a allai effeithio are eu mynediad i addysg oni bai ei fod yn cael triniaeth briodol. Ystyrir bod gan ddisgyblion felly anghenion meddygol.’

Ein prif nod yw lleihau, i’r graddau mwyaf bosib, y tarfu ar addysg arferol, gan sicrhau diogelwch y plentyn â sensitifrwydd tuag at anghenion emosiynol.

Os yw’r cyflwr meddygol yn ddigon difrifol i greu peryg i fywyd y plentyn, fe nodir manylion ar gyfer y cyflwr meddygol a ffordd i ymdrin ag ef mewn ‘Cynllun Gofal Meddygol Unigol’. Bydd y cynllun yn cael ei ddrafftio gan y cydlynydd ADYo dan arweiniad yr asiantaethau iechyd priodol, y rhieni ac os yn briodol, y plentyn. Sicrhawn gytundeb y rhieni i gynnwys y Cynllun hwn ac wedyn eu cofrestru’n ganolog gyda’r Awdurdod Lleol a’r Awdurdod Iechyd. Mae copi'r cynllun yn cael ei gadw o fewn y dosbarth a chan y cydlynydd ADY . Adolygwn y Cynllun Gofal Meddygol o leiaf unwaith y flwyddyn ond gall hefyd gael ei ddiweddaru yn gynt yn ôl yr angen.

Cyfrifoldeb y Cydlynydd yw rhaeadru gwybodaeth ynglŷn â phlant sydd ag anghenion meddygol ymysg y staff ysgol i gyd ac i drefnu hyfforddiant priodol ar gyfer staff penodol pan fod angen. Gall yr hyfforddiant hwn gael ei roi gan rieni neu aelodau'r Awdurdod Iechyd . Rydym fel staff cyfan wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio Epipeniau (Chwefror 2020) gyda phlant mewn peryg o sioc anaphylactig a sicrhawn fod staff newydd- ymuno yn derbyn yr un cyfle.

Gweithiwn yn agos gyda sawl adran yr Awdurdod Iechyd er lles plant unigol. Sicrhawn fewnbwn gan y rheini adolygiadau Cynlluniau Gofal Iechyd neu /a datganiad.

Mae gennym ‘Cynllun Gofal Personol ‘ ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau sy’n golygu eu bod yn trochi. Mae’r Cydlynydd yn cwrdd gyda’r rhieni a’r staff perthnasol i ddrafftio’r cynllun yma er mwyn sicrhau urddas y disgybl unigol a diogelwch y staff.

**15.Gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni**

Mae’r Cod Ymarfer ar gyfer plant gydag Anghenion Arbennig yn datgan (para 2.2) fod partneriaeth gyda rhieni yn chwarae rôl allweddol mewn creu awyrgylch o gydweithrediad rhwng rhieni, ysgolion, yr Awdurdod Addysg Lleol a phobl ifanc. Felly mae hefyd yn galluogi plant gydag Anghenion Arbennig i gyrraedd eu potensial. Yn ein hysgol ni mae’r Pennaeth, athrawon, y Cydlynydd, cynorthwywyr dosbarth a’r staff bugeiliol i gyd yn rhan o’r cydweithrediad yma. Rydym yn cydnabod pa mor werthfawr gall mewnbwn rhieni fod i Gynlluniau Addysg Unigol eu plant ac yn

gwerthfawrogi eu cyfraniad at gyfarfodydd gydag athrawon ac aelodau o dimau cynghori allanol.

Rydym yn gweithredu polisi ,'drws agored,' ac yn gwahodd rhieni o leiaf ddwywaith y flwyddyn i drafod cynnydd a chyfrannu at gynlluniau unigol, er mwyn:

- manteisio ar wybodaeth ac arbenigedd rhieni mewn perthynas â'u plentyn

- cydnabod buddsoddiad personol ac emosiynol rhieni

- sicrhau dealltwriaeth y dulliau gweithredu a ffordd i gael cefnogaeth wrth baratoi eu cyfraniadau

- parchu'r anghenion amrywiol a all fod gan rieni eu hunain, megis rhwystrau cyfathrebu neu iaith

- fod yn hyblyg o ran amseriad a strwythur cyfarfodydd

Yr ydym felly yn annog ein rhieni i chwarae rôl weithredol yn y ffyrdd y mae'r ysgol yn ymateb i anghenion eu plant. Adnabyddwn bwysigrwydd eu dealltwriaeth o ddiben unrhyw ymyriad ac fe'u hysbysir am y gwasanaeth partneriaeth â rhieni pan ganfyddir yr anghenion arbennig. Sicrhawn fod y rhieni yn ymwybodol o natur anghenion arbenigol a dulliau ysgol o ymateb trwy drafod ac esbonio cynnwys a gofyn am  lofnod sy'n cadarnhau eu caniatâd i' r cyfeiriad am gymorth arbenigol fynd yn ei flaen.

## 16. Trefn Cwynion

Os bydd rhieni yn teimlo nad yw'r ysgol yn cyflawni ei dyletswydd tuag at eu plentyn, mae modd iddynt gysylltu â grŵp cefnogi rhieni lleol (SNAP Cymru- gweler Atodiad 1). Mae yna hefyd drefn benodol wedi ei gosod ym mhennod 2.22-2.30 o God Ymarfer Addysgol Arbennig Cymru, sydd ar gael yn yr ysgol.

## 17.Gweithio mewn partneriaeth gydag eraill sy'n darparu cefnogaeth

Adnabyddwn bwysigrwydd gweithio'n agos gydag ysgolion eraill, gwasanaeth arbenigol yr Awdurdod Addysg Lleol ac asiantaethau eraill er lles ein plant. Yn ôl angen y plentyn unigol felly, rydym yn cyfeirio ar gyfer asesiadau a/neu gyngor at ein Seicolegydd Addysg benodedig, Athrawon Arbenigol, Swyddog Meddygol ein hysgol ac i'r adran therapydd iaith a lleferydd. Yn ogystal gall gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg ein hymgynghori am strategaethau, technegau a deunyddiau cwricwlaidd addas**.** (Gweler Atodiad 1)

Rydym yn cyfathrebu gyda chydlynyddion ygolion eraill mewn cyfarfodydd rhwydwaith yn dymhorol. Mae perthynas agos i gael rhwng cydlynyddion ysgolion

Cymraeg eraill y Sir er mwyn rhannu adnoddau Cymraeg yn benodol. Mae'r pennaeth yn cwrdd a swyddogion y sir er mwyn sicrhau y defnydd gorau o'r arian dirprwyedig ac offer monitro y sir.

**18.Trefniadau trosglwyddo**

Mae'n ofynnol arnom drosglwyddo manylion llawn am blant sydd yn gadael yr ysgol naill ai ar ddiwedd gyfnod ysgol neu ar unrhyw adeg arall i fynychu ysgol arall. Rhaid gwneud hynny o fewn 15 diwrnod ar ôl i'r plentyn ddod oddi ar gofrestr ein hysgol. Felly, mae ein cydlynydd yn trosglwyddo Cynllun Unigol ag unrhyw adroddiadau perthnasol, gan nodi neu drafod anghenion y plentyn gyda Chydlynydd neu staff perthnasol yr ysgol honno. Pan mae'r disgybl ag anghenion ychwanegol yn trosglwyddo i ysgol gyfun rydym yn trafod a throsglwyddo gwybodaeth yn yr un modd, fel bod darlun clir a chyflawn o'r plentyn yn cael ei drosglwyddo. Yn aml, gyda chydsyniad y rhieni, byddwn yn trefnu ymweliadau ychwanegol ar gyfer y disgybl hwnnw (ac weithiau rhai o'i gyfoedion i hwyluso'r ymweliad) er mwyn annog trosglwyddiad mwy llyfn maes o law.

Rydym hefyd yn annog rhieni i gysylltu â Chydlynydd yr ysgol uwchradd er mwyn trafod unrhyw bryderon sydd ganddynt ac i hwyluso'r broses o drosglwyddo ar gyfer y plentyn. Pan mae plentyn â datganiad yn trosglwyddo i ysgol arall o fewn yr un awdurdod, rydym yn gwneud cais i newid rhan 4 y datganiad naill ai yn yr adolygiad blynyddol neu pan mae'r achos yn codi. Mae'r ysgol yn anfon cynrychiolwr i rannu gwybodaeth am y disgybl yn y cyfarfod mynediad sydd yn cael ei drefnu gan y Seicolegydd i baratoi y ffordd ar gyfer plant â datganiadau sydd yn trosglwyddo i'r ysgol gyfun.

| **Mabwysiadu'r Polisi** |
|---|
| Dyddiad Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol: 4/3/20 |
| Dyddiad Ardystiwyd gan y Corff Llywodraethol: 4/3/20 |
| Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: |

Atodiad 1:

**Partneriaid Arbenigol**

**Helen Osborne**: Uwch Seicolegydd Addysg, Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN.

Tel:  01792 636162

**Rachel Vallance**: Athrawes Arbenigol Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu ac Athrawes Arbenigol i'r Byddar, Adnodd Iaith a Lleferydd Bryntawe, Ysgol  Gyfun Gymraeg Bryntawe, Heol Gwyrosydd, Penlan , Abertawe, SA5 7BU.

Tel: 01792 560628

**Nicola McWilliam**: Athrawes Arbenigol Anawsterau Emosiynnol ac Ymddygiadol, Tŷ Dan y Coed, Huntingdon Close, West Cross, Abertawe, SA3 5AL.

Tel: 07827 307939

**Elizabeth Rolfe** : Athrawes Arbenigol  ar gyfer plant ag Anawsterau Golwg, Tŷ Dan y Coed, Huntingdon Close, West Cross, Abertawe, SA3 5AL.

Tel: 01792 405689

**Karen Hooper**: Swyddog Mobility, Tŷ Dan y Coed, Huntingdon Close, West Cross, Abertawe, SA3 5AL

Tel: 01792 405689

**Rhian Bowen** : Therapydd Iaith a Lleferydd, Clinig Canolog, 21 Heol y Berllan, Abertawe, SA1 5AT.

Tel: 01792  651501

Rhiannon Carpenter: Therapydd Galwedigaethol, Hafan Y Môr, Ysbyty Singleton, Lôn Sgeti, Abertawe, SA2 8QA.

Tel: 01792 200400

**Amanda Daniels**, SNAP Cymru (Abertawe), Adeilad Itech Abertawe, 250 Heol Caerfyrddin, Abertawe, SA1 1HG